# Cenn@d

24 Mehefin 2026

**Rhifyn 278**

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

UBC BUW

GOLEUNI'R BYWYD


# Rhodiwch mewn Cariad:

## *Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru, Caerdydd*

Eleni, capel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd, oedd yn gwahodd Bedyddwyr Cymru atynt i gynnal cyfarfodydd blynyddol yr Undeb, a hynny wrth drosglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Parchg Ddr Rosa Hunt, yn dilyn blwyddyn lwyddiannus dan arweiniad y Parchg Rob Nicholls. Dyma bumed ymweliad yr Undeb â'r Tabernacl yn ystod y ganrif hon, gan ddiolch yn yr un modd am gyfnodau llywyddol y Parchg Denzil John, Mr Gwenallt Rees, y Parchg Peter Dewi Richards a Mr Bill Davies.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd blynyddol eleni dros gyfnod o ddau ddiwrnod, ar ddydd Iau a Gwener, 18–19 Mehefin. Dilynwyd hyn gan bererindod heddwch o gwmpas Caerdydd ar y dydd Sadwrn, gan ymweld â'r Deml Heddwch, ac yna oedfa unedig i eglwysi Caerdydd ar y bore Sul, dan arweiniad y Parchg Owain Llŷr Evans.

Fe'n croesawyd i'r Tabernacl ar y bore Iau gan Rhys ap Owen a Rosa Hunt, cyn i Eirian Dafydd ein harwain mewn defosiwn agoriadol hyfryd.

Dechreuwyd ar waith y gynhadledd yn yr eisteddiad cyntaf, gan dderbyn cofnodion ac adroddiadau 2025. Diolch i Rob Nicholls am ei lywyddu doeth ac urddasol. Cafwyd cyflwyniadau gan Simeon Baker, Christian Williams a Glyndwr Prideaux, a gyflwynodd adroddiadau'r Cyngor, y Gorfforaeth a'r cyfrifon. Gan edrych tua'r dyfodol, daeth Aled Davies ymlaen i gyflwyno



*Oedfa'r Weinidogaeth o dan arweiniad Rhys Llwyd a Hannah Smethurst*



*Oedfa'r Llywydd o dan arweiniad Rosa Hunt, y Llywydd newydd*



*Cyfeillion Blaen-y-cwm yn arwain defosiwn o dan ofal Geraint Davies*



*Ed Kaneen, Rosa Hunt a Densil Morgan gyda rhai o gyn-fyfyrwyr Coleg Caerdydd*


Ymgyrch 'Arise Africa' gan Open Doors
**Tudalen 3**

Cenhadaeth Geltaidd: ymweliad criw o Galway
**Tudalen 4**

Ysgol Haf y Weinidogaeth Iachâu
**Tudalen 8**

enw ar gyfer yr Is-lywyddiaeth, a hyfrydwch oedd croesawu'r Parchg Casi Jones, eglwys Emaus, Bangor, i'r rôl honno.

Aed ymlaen yn yr ail eisteddiad i gyflwyno holl gadeiryddion y gwahanol bwyllgorau, a hynny drwy sesiwn holi ac ateb. Yn cael eu holi gan Simeon Baker yr oedd Glyndwr Prideaux, cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; Iwan Davies a Christian Williams ar ran y Gorfforaeth; Bill Davies, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr; Marc Owen, Cadeirydd Bwrdd y Weinidogaeth; a Carwyn Greaves, cydlynydd Bwrdd y Genhadaeth.

Wedi cinio yn y festri cafwyd cyflwyniad gan Fwrdd y Genhadaeth, yn cael ei lywio gan Carwyn a Sioned Greaves, a chyfle i holi Hannah Smethurst o Gaersalem, Caernarfon; Pedr ap Llwyd, Penuel, Caerfyrddin; a Sian Jones, Scripture Union Cymru.

Croesawyd ein cyfeillion eciwmenaidd atom, yn eu plith Owain Llŷr Evans, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; Cynan Llwyd, Cytûn; Ian Morris, yr Eglwys Fethodistaidd; Dyfrig Lloyd, yr Eglwys yng Nghymru; ac Ed Caneen, Cymanfa Bedyddwyr De Cymru.

Oedfa'r Weinidogaeth oedd yn cloi arlwy'r diwrnod cyntaf, gydag oedfa fendithiol iawn dan arweiniad Hannah Smethurst a Rhys Llwyd, y ddau ohonynt yn gyd-weinidogion ar eglwys Caersalem, Caernarfon. Cafwyd cyfle yn ystod yr oedfa i goffáu gweinidogion a fu farw, ac i groesawu a chyflwyno gweinidogion newydd i'n plith.

Cyfeillion eglwys Blaen-y-cwm, dan ofal Geraint Davies, fu'n arwain y defosiwn boreol ddydd Gwener, cyn trosglwyddo ar gyfer sesiwn Mudiad y Chwiorydd. Cafwyd cyflwyniadau gan Sian Elin Thomas a Gret Evans, cyn cael sesiwn hynod ddiddorol gan Sian Meinir yn sôn am ei gwaith yn paratoi myfyrdodau wythnosol yn *Cenn@d* yn seiliedig ar y gyfrol *Codi'r Llen*.

Yn dilyn y sesiwn hwn, cafwyd cyfle i fynd ar wibdaith i gyfeiriad Coleg y Bedyddwyr, a chael taith dywys gan Ed Kaneen a rhai o'r myfyrwyr. Yno, cafwyd agoriad swyddogol llyfrgell newydd, sef gwaddol y llyfrau a drosglwyddwyd o'r Coleg Gwyn ym Mangor. Braf oedd cael cwmni Ruth Davies i dorri'r rhuban coch i agor y llyfrgell a enwyd ar ôl ei thad, yr hanesydd T. M. Bassett. Cafwyd anerchiad gan Densil Morgan, cyn dadorchuddio portread o Rosa Hunt ac Ed Kaneen i gofio'r cyfnod pan oeddent yn gyd-benaethiaid.

Wedi cyrraedd yn ôl i'r Tabernacl cyflwynwyd darlith goffa Lewis Valentine, sef ein darlith heddwch flynyddol, gan Siân Rhiannon, a chafwyd anerchiad meistrolgar ganddi ar rôl merched yn ymgyrch heddwch ein gwlad.

Dilynwyd hyn gan sesiwn Llwybrau Newydd dan arweiniad Rosa Hunt, a chafwyd cyfle i holi cyfeillion Salem, Ton-teg, am eu gwaith arloesi, gan dderbyn sylwadau o lawr y gynhadledd. Daeth y gynhadledd i ben gydag oedfa'r Llywydd, gyda Rosa'n arwyddo Beibl y Llywydd, cyn cyflwyno anerchiad heriol a grymus.

Diolch am ddeuddydd cofiadwy a bendithiol, a dymunwn fendith Duw ar Rosa dros y flwyddyn nesaf. Cofiwn amdani yn ein gweddïau, wrth iddi ein harwain fel Undeb ymlaen i'r dyfodol.

*Aled Davies*




*Rosa yn arwyddo'r Beibl ym mhresenoldeb Simeon Baker*




*Cyflwyniad Mudiad y Chwiorydd*



*Cyflwyniad Bwrdd y Genhadaeth*




*Darlith Heddwch o dan arweiniad Siân Rhiannon*

# Open Doors – Ymgyrch 'Arise Africa'

Mae gennym ni newyddion gwych! Mae deiseb 'Arise Africa' wedi cyrraedd carreg filltir arbennig, gyda dros 600,000 o lofnodion.


## Pam mae angen ymgyrch 'Arise Africa' o gwbl?

Mae miliynau o Gristnogion yn wynebu erledigaeth dreisgar yn Affrica is-Sahara. Maent wedi cael eu gyrru allan o'u cartrefi a'u pentrefi. Mae eu heglwysi wedi cael eu llosgi, ac ymosodwyd ar eu cartrefi a'u pentrefi. Mae bywydau wedi'u colli ac mae 16.2 miliwn o Gristnogion yn Affrica wedi eu dadleoli gan drais a gwrthdaro.

"Mae miliynau o Gristnogion wedi'u dadleoli yma yn Nigeria," meddai'r Parchedig Barnabas, gweinidog sy'n byw gyda'i deulu mewn gwersyll yng ngogledd Nigeria i rai sydd wedi eu dadleoli'n fewnol. Bu raid iddyn nhw orfod ffoi wedi i'w frawd a'i chwaer yng nghyfraith gael eu lladd ac i Barnabas gael ei anafu'n ddrwg gan derfysgwyr Islamaidd. "Mae yna filiynau lawer o Gristnogion wedi'u dadleoli yn Affrica. Does dim ots gan y newyddion am hyn; dydy gwleidyddion ddim yn sôn amdano; dydy llywodraethau ddim yn sôn amdano; does yna ddim sôn amdano mewn gwleidyddiaeth ryngwladol. Does yna neb yn sôn am y peth."



*Y Parch. Barnabas sy'n byw yn un o nifer o wersylloedd i bobl wedi'u dadleoli yn Nigeria*




Nod ymgyrch 'Arise Africa' yw sicrhau *bod* pobl yn sôn am yr argyfwng hwn. Ac nid Nigera yw'r unig wlad yn Affrica sy'n cael ei heffeithio.

Mae Affrica Is-Sahara'n cynnwys holl wledydd Affrica sydd i'r de o anialwch y Sahara. Mae Open Doors yn canolbwyntio'u cefnogaeth yn y gwledydd hyn sy'n adrodd am lefelau 'uchel' ac 'uchel iawn' o erledigaeth yn Rhestr Gwylio'r Byd, sef: Somalia, Sudan, Eritrea, Nigeria, Mali, Burkina Faso, Gweriniaeth Canol Affrica, Niger, Ethiopia, Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (DRC), Mozambique, Comoros, Cameroon, Chad, Kenya, Tanzania, Djibouti, Burundi, Rwanda, Togo, Guinea, Angola, Uganda, Cote D'Ivoire, Gambia, De Sudan, Guinea Cyhydeddol, Sierra Leone a Guinea Bissau.

Fel y dengys y map uchod, gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr erlid mewn deng mlynedd. Bu cynnydd mewn erledigaeth dreisgar, ac mae holl dirwedd erledigaeth grefyddol wedi newid yn ddirfawr.

## Diwrnod Rhyngwladol o Weddi 2026 – nodwch y dyddiad!

**Ar 1 Tachwedd 2026 cynhelir Diwrnod Gweddi Rhyngwladol dros yr Eglwys sy'n cael ei herlid.**

Yn ystod mis Tachwedd hefyd bydd deiseb fyd-eang 'Arise Africa' yn cael ei chyflwyno i lywodraethau ledled y byd, a hefyd i'r Undeb Ewropeaidd a'r Cenhedloedd Unedig. Felly, bydd hwn yn adeg hollbwysig ar gyfer gweddi.

Dyna pam rydym yn gofyn i gynifer o eglwysi â phosibl wneud lle yn eu gwasanaethau ar y Sul hwn ar gyfer amser gweddi. I'ch helpu chi, mae Open Doors wrthi'n llunio pecyn adnoddau arbennig, a gofynnir ichi nodi'r dyddiad yn eich dyddiadur.

Yn ddiweddar, cafwyd cyfle i weld yr arddangosfa 'Dagrau Aur' yng Nghymru a sylwi ar straeon dirdynnol gan ferched o Nigeria oedd wedi wynebu trawma. Ar ôl gweld yr arddangosfa, y peth lleiaf y gellid ei wneud fyddai arwyddo'r ddeiseb 'Arise Africa' a galw ar y gymuned fyd-eang i sicrhau bod Cristnogion agored i niwed yn Affrica Is-Sahara yn cael eu hamddiffyn, yn derbyn cyfiawnder ac adferiad.

Mae cyfle o hyd i ychwanegu eich llofnod. Ac anogwch eraill i wneud hynny. Rydym am wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw Cristnogion yn Affrica yn dioddef heb i neb sylwi.

Os ydych chi eisoes wedi llofnodi'r ddeiseb, anogwch eich eglwys, eich teulu a ffrindiau i ychwanegu eu lleisiau hwythau. Bydd hyn yn helpu Open Doors i gyrraedd y nod o filiwn o lofnodion yn fyd-eang er mwyn galw yn syml am ddiwedd ar y trais a dechrau'r iachâd.

Mae modd llofnodi ar y we drwy'r ddolen isod neu argraffu'r ddeiseb a derbyn y llyfryn Rhestr Wylio'r Byd 2026 yn Gymraeg oddi ar wefan Open Doors:

Arise Africa - Open Doors yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon

# Cenhadaeth Geltaidd –

## ymweliad criw o Brifysgol Galway â Phwllheli a gogledd Cymru

Y llynedd, daeth tair merch hefo ni am drip i Gymru i gyfarfod rhai o'r bobl sydd yn cefnogi Eli, fy ngŵr, a minnau yn ein gwaith o rannu am gariad Duw yn Galway. Drwy gydol y flwyddyn wedyn, lledaenodd y sïon am y croeso cynnes a'r profiad braf yng Nghymru. Felly roedd yn rhaid gwneud lle i chwech ddod eleni: Mary (sy'n gweithio efo Undeb Cristnogol Iwerddon am flwyddyn), Marlies, Kirsten, Ethan, Ceallachan a Dione (myfyrwyr ym mhrifysgol Galway).

Wrth i Eli a fi baratoi'r criw i ddod i Gymru, roeddem yn pwysleisio mai ein prif bwrpas oedd dod i annog pobl Dduw yng Nghymru ac i dderbyn anogaeth yn ein tro. Yng nghanol hynny roedd cyfle i ni hefyd baratoi'r criw ar gyfer eu gwaith yn arwain yr Undeb Cristnogol ym Mhrifysgol Galway drwy ddilyn astudiaethau yng Ngair Duw oedd yn pwysleisio efengyl Iesu Grist a'r gwaith o efengylu a roddodd ef i'w Eglwys.



*Elin ac Eli gyda'r criw a ddaeth i ogledd Cymru.*

Wrth ddod i Gymru roedd cyfle i weld Eglwys Crist ar waith mewn congl arall o'r byd. Cafwyd cyfle i'r criw weddïo yng nghyfarfod gweddi'r ofalaeth, cymryd rhan mewn taith gerdded Cymorth Cristnogol, ac ymweld ag Ysgol Gynradd Aberdaron hefo Mam (Nia) wrth iddi hi rannu am y Pentecost. Y Pentecost, wrth gwrs, oedd dechrau'r gwaith o rannu'r newyddion da fod maddeuant i ni yn Iesu Grist oherwydd ei fuddugoliaeth ar y Groes a'i Atgyfodiad.

Gan eu bod yn hanu o Iwerddon, America, yr Iseldiroedd, yr Almaen, yr Eidal a Brasil, roedd y criw yn enghraifft fyw i'r plant o bobl o bob rhan o'r byd oedd (fel 2,000 o flynyddoedd yn ôl) yn caru ac yn dilyn Iesu Grist.

Ar y nos Iau rhoddwyd gwahoddiad i ofalaeth Pwllheli ymuno hefo ni am baned a sgwrs yn festri Capel y Drindod. Roedd hi'n hyfryd gweld y lle yn llawn! Thema'r noson oedd geiriau Iesu amdano'i hun: 'Myfi yw goleuni'r byd. Ni bydd neb sy'n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni'r bywyd.' (Ioan 8:1)

Roeddem eisiau rhannu am y gwaith yn Galway: y siop lyfrau dan ofal Eli a gwaith yr Undeb Cristnogol yn y brifysgol. Ond y prif beth oedd rhannu bod Iesu yn oleuni i'r holl fyd – i Gymru, Iwerddon ac i bedwar ban y byd. Efallai fod rhan helaeth o bobl Cymru wedi anghofio hyn, a bod rhan helaeth o bobl Iwerddon yn anymwybodol o hyn. Ond dyma'r gwirionedd: bod Iesu'n oleuni ac yn iachawdwriaeth i ni, a bod yn rhaid cydnabod ein tlodi ysbrydol a dibynnu'n llwyr ar Iesu.

Bore dydd Gwener yr un oedd y croeso cynnes yng Nghapel Rhos-y-gad, lle buom yn rhannu eto am oleuni Crist. Roedd hi'n braf i'r criw fod yn rhannu eu brwdfrydedd am y Newyddion Da gyda chyfeillion Môn.

Gyda'r nos bu cyfle eto i rannu ein hanes gydag aelodau capeli Efengylaidd Bangor ac Eglwys-bach.

Cafwyd cyfleon da i weddïo dros Gymru drwy gydol yr wythnos a bydd profiadau'r daith yma'n rhai i'w trysori i'r criw i gyd. Diolch drosom ni i gyd, am y croeso cynnes a'r anogaethau. Boed i ni oll fyw yng ngoleuni Iesu Crist. Cofion cynnes i chi oddi wrthym i gyd,

*Elin ac Eli Williamson, Galway, Iwerddon*

(*Mae Elin yn gweithio gyda mudiad Universities and Colleges Christian Fellowship ym Mhrifysgol Galway*)

## Oedfa Gomisiynu'r Parch. Simeon Baker

### yn Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb Bedyddwyr Cymru

**Cynhelir y gwasanaeth am 7 o'r gloch nos Lun, 6 Gorffennaf, yn eglwys Bethesda Baptist Church, 108 Cefn Rd, Rogerstone, Casnewydd, NP10 9EX.**

Fe'ch gwahoddir yn gynnes i ymuno â'r gwasanaeth fydd yn gyfle i weddïo dros yr Undeb a dros Simeon wrth nodi'r bennod newydd hon.

Mae Simeon wedi bod yn aelod o Eglwys Bethesda ers 2012 ac rydym yn ddiolchgar i'r eglwys am gynnal y gwasanaeth comisiynu. Bydd y gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg a darperir cyfieithiad.

Os na allwch fynychu'n bersonol, bydd cyfle i ymuno â'r gwasanaeth ar-lein. Cysylltwch â swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru os hoffech dderbyn dolen i'r cyfarfod.

## Ordeinio Blaenoriaid yn Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd



Pnawn a nos Fawrth, 16 Mehefin 2026, cafwyd cyfarfodydd arbennig iawn yng Nghapel Salem, Dolgellau, i ordeinio pedwar blaenor newydd.

Y pedwar oedd yn cael eu hordeinio oedd Mrs Ann Evans a Mr Maldwyn Jones o Gapel Isa, Nefyn, a Mr Pryderi Hughes a Bethan Lloyd Dobson o Gapel Libanus, Pant-glas.

Cyflwynwyd adroddiad calonogol iawn gan y Parchedig W. Bryn Williams ar ei ran ef a Mr John Aneurin Thomas, Morfa Nefyn, am yr ymddiddan oedd wedi digwydd yn y pnawn gyda'r rhai oedd i'w hordeinio.

Roedd awyrgylch hyfryd yn y capel ar gyfer oedfa'r ordeinio, gyda chynulleidfa wresog wedi dod i gefnogi'r darpar flaenoriaid. Dr Gwynne Wheldon Evans oedd yn llywio'r gweithgareddau, ac fe gafwyd gweddi ddwys iawn gan y Parchedig W. Bryn Williams ar yr ordeiniad. Yna fe gafwyd cyngor doeth iawn gan Mrs Marian Lloyd Jones, Llywydd Sasiwn y Gogledd, i'r rhai oedd wedi eu hordeinio. Roedd hefyd yn berthnasol i bawb oedd yn flaenoriaid ers blynyddoedd.

Yn ystod y gwasanaeth fe wnaethom longyfarch John Aneurin Thomas am 50 mlynedd o wasanaeth fel blaenor ym Morfa Nefyn ac Edward P. Owen, ein Trysorydd gweithgar am 40 mlynedd yn Horeb, Dyffryn Ardudwy.

Braint oedd cael bod mewn oedfa ordeinio mor wresog a theimladwy.

*Meinir Lloyd Jones, Ysgrifennydd yr Henaduriaeth*



Mewn cyfarfod yng Nghapel y Groes/ Ebeneser, Wrecsam, ar 21 Mai, ordeiniwyd dau flaenor o gapel Bethel, Ponciau. Yn y llun fe welir Peter Ireland a Richard Dodd o gapel Bethel; Aled Lewis-Evans, Llywydd yr Henaduriaeth, a Marian Lloyd Jones, Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, a oedd adref yn ei heglwys ei hun yn Wrecsam ar gyfer ei chyfarfod ordeinio cyntaf wedi ei chodi'n llywydd eleni.

# Ein hysgol ni




Tybed os oes gennych chi lun ohonoch yn yr ysgol wedi ei gadw dros y blynyddoedd? Wrth edrych arno, mae'n siŵr y daw â llu o atgofion am gyfoedion ac athrawon ac am brofiadau o bob math! Pe baech yn ymweld â'ch ysgol heddiw, fe fyddech yn siŵr o weld newid mawr yn y dulliau dysgu, yr hyn sydd ar y waliau, yr adeilad ei hun, a chymaint mwy.

Mae'n braf iawn fod cyfleon yn dal ar gael i eglwysi gefnogi eu hysgol leol mewn llawer iawn o ffyrdd. Mae gan Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ddwy ddogfen ddefnyddiol: un yn rhoi llawer o syniadau sut i greu cyswllt ag ysgolion: Cysylltu-Eglwysi-ac-Ysgolion-1.pdf, ac un arall sy'n rhoi canllawiau ar ymarfer da wrth ymweld ag ysgolion: CANLLAW-AR-GYFER-YMWELD-AG-YSGOLION-CYNRADD-AC-UWCHRADD.pdf.

Efallai na fedrwn ni i gyd gyrraedd allan yn uniongyrchol i'n hysgolion yn lleol, ond fe allwn ni i gyd weddïo dros ein hysgolion. Mae Gweddi dros Ysgolion Cymru yn annog unigolion a grwpiau i weddïo dros eu hysgolion lleol a materion addysgol ar draws Cymru. Mae'r mudiad, sy'n bodoli ers rhai blynyddoedd, wedi ei ail-lansio yma yng Nghymru ac mae gweledigaeth i weld hybiau gweddi dros dalgylchoedd ysgolion uwchradd ar draws ein gwlad. Am fwy o wybodaeth ewch i Ysgolion – Prayerhouse at Bethania i gael mynediad i'r wefan. Mae cyfle hefyd i weddïo'n genedlaethol yn rhithiol unwaith y tymor.

Cofrestrwch ar y wefan i dderbyn mwy o wybodaeth am y cyfarfodydd.

*Nia W. Williams*
*Arweinydd Tîm a Swyddog Addysg*
*Eglwys Bresbyteraidd Cymru*


## Medalau Gee 2026

Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau
Medalau Gee ar gyfer 2026 yw **Mehefin 30.**
Ceir manylion llawn a ffurflen gais ar y wefan:

https://ysgolsul.com/?page_id=3737

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 28

## Ymson Athaleia

Fe'm cofir gan rai fel un a gipiodd goron yn gyfrwys, er nad oedd yn eiddo imi mewn gwirionedd. Cofia eraill imi fod yn dreisgar ac yn uchelgeisiol. Ond cyn ichi fy meio, gofynnaf ichi wrando ar fy stori. Oherwydd nid stori sy'n gaeth i'r gorffennol ydyw, ond un sy'n parhau i fodoli, lle bynnag y mae grym yn trechu egwyddor.

Pan fu farw fy mab, gwelais gyfle. Ofnwn y byddwn yn colli fy nylanwad grymus, yn colli rheolaeth, yn colli fy statws. Yn hytrach nag ymddiried yn Nuw a pharchu'r olyniaeth frenhinol, dewisais lwybr arall. Dewisais fy nghoron. Argyhoeddais fy hun na fyddai dim yn fy nhroi oddi ar y llwybr. Roeddwn yn benderfynol. Cafodd y rhai a safai yn fy ffordd eu dinistrio. Am y chwe blynedd y bûm yn teyrnasu dros Jwda, fe wnes yn sicr o un peth – allai neb fy herio.

Roedd popeth yn iawn i mi, am gyfnod. Gwrandawai'r bobl arnaf ac ufuddhau i fy mympwyon. Siapiwyd y genedl yn gelfydd o'm herwydd i. Ar yr wyneb, ro'n i'n llwyddiannus. Ychydig a wyddwn bryd hynny nad yw grym sy'n creu ofn fyth yn ennill. Gyda phob gorchymyn newydd, deuai llif ansicrwydd yn nes ataf. Ro'n i'n sigo'n araf bach. Ces fy ngwthio ymhellach oddi wrth gyfiawnder gyda phob gweithred i'm hamddiffyn fy hun. Doeddwn i ddim yn ddigon craff i sylweddoli mai'r hyn oedd yn fy ngyrru ymlaen oedd fy ngelyn.

Yna, daeth y gwir i'r amlwg.

Yn ddiarwybod i mi, roedd un o'r plant y ceisiais eu lladd yn fyw! Cadwyd Joas yn ddiogel, ac mewn eiliad gwelais fy nheyrnas yn dymchwel. Diflannodd y grym a fu yn fy meddiant am flynyddoedd. Roeddwn i wedi adeiladu fy nyfodol ar ofn a thrais. Gŵyr pawb call nad ydynt yn bethau i osod sylfaen arnynt. Ni all ofn a thrais gynnal neb!

Fe'ch clywaf yn gofyn y cwestiwn: pam mae'n rhaid inni wybod mwy am y wraig hon? Beth sydd a wnelo hi â ni yn awr? Un peth a wn: mae'r demtasiwn a'm dinistrodd i'n dal i fodoli. Gallaf fod yn eitha siŵr fod yna bobl y gwyddoch chi amdanynt sy'n difetha bywydau pobl eraill, yn bychanu eraill, yn difa unrhyw un sy'n sefyll yn eu ffordd. Credant fod dinistrio eraill yn eu codi nhw i fyny. Mor ffôl ydynt!

Mae pobl yn fodlon difetha enw da er mwyn ennill dylanwad. Mae arweinwyr yn tawelu eu gwrthwynebwyr yn hytrach na gwrando arnynt. Mae sefydliadau'n aberthu egwyddor dda er mwyn llwyddo. Mae unigolion yn cyfaddawdu'n rhy hawdd. Efallai fod y dulliau'n wahanol, ond yr un yw'r cymhelliad: ceisio dangos bod grym yn fwy gwerthfawr na chyfiawnder. Erbyn hyn, dwi'n gwybod yn well!

Dwi am ichi gofio am Joas. Doedd ganddo ddim byd: dim byddin, dim awdurdod, dim palas, dim llais. Plentyn oedd e, ond ei oroesiad ef oedd yn gyfrifol am wyrdroi popeth: daeth y diniwed yn gryf, y gwan yn nerthol, y bach yn fawr. Mae'r gwirionedd hwnnw yr un mor berthnasol ag erioed.

Holwch eich hunan heddiw. Oes yna rywbeth fyddech chi'n ei amddiffyn mor ffyrnig fel y byddech yn fodlon aberthu er ei fwyn? Gyrfa? Enw da? Safle? Perthynas? Llwyddiant?

Mae grym a geisir ar draul rhywbeth arall yn gallu dinistrio'r sawl sy'n ei geisio. Roeddwn i'n dyheu cymaint am gadw fy safle. Ond dewis glynu at y dyhead hwnnw arweiniodd at fy nghwymp! Dyma fi felly'n eich rhybuddio chithau. Try grym heb ostyngeiddrwydd yn ormes, ac fe dry ofn heb ffydd yn ddinistr.

Dyma fy stori: mae'n hynafol, ond nid yw'n hen.

**Holi**

- A welwn ni, yn ein dyddiau ni, enghreifftiau o bobl neu sefydliadau'n aberthu eu gwerthoedd i elwa mewn rhyw fodd? Sut mae ffydd a chred yn gallu gwneud gwahaniaeth yn hyn o beth?
- Arbedwyd Joas, er y byddai Athaleia wedi'i ladd os gallai. Beth ddysgwn ni, drwy'r stori, am sofraniaeth Duw pan fo sefyllfaoedd yn ymddangos yn anobeithiol?
- Yn y tymor byr, roedd teyrnasiad Athaleia yn ymddangos yn gryf, ond roedd hi'n fregus. Ar ba fath o sylfeini y mae pobl yn tueddu i adeiladu eu bywydau arnynt heddiw?
- Os yw stori Athaleia yn ein rhybuddio am beryglon uchelgais wael a stori Joas yn ein hatgoffa o ffyddlondeb Duw, pa un sydd angen i'r Eglwys heddiw ei chlywed fwyaf, a pham?

**Gweddi**
Cymorth ni i ddewis
gostyngeiddrwydd yn hytrach nag
uchelgais ffôl,
addfwynder yn hytrach nag
anniddigrwydd,
a ffydd pan ddaw ofn yn agos.
Boed i ni weld eraill pan fo bod yn
hunan-ganolog mor hawdd. Gwna
ni'n rasol a chariadlawn. A boed inni
ddewis dilyn Ysbryd y Gwirionedd
bob amser. Amen.

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 28 Mehefin 2026**

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 28 Mehefin,**
**am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Gwynfryn

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 28 Mehefin**
**am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Megan Williams, Llanfair-pwll

# Darlithydd y Ddarlith Davies eleni – Parch. Ddr Andras Iago



**Rydych chi wedi derbyn gwahoddiad i roi'r Ddarlith Davies eleni yng Nghymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Beth yn union yw'r Ddarlith Davies?**

Sefydlwyd y Ddarlith Davies yn 1883 gan Thomas Davies, Bootle, er cof am ei dad. Bwriad y ddarlith oedd rhoi cyfle i weinidog ordeiniedig o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru roi darlith ar bwnc o'i ddewis 'ar grefydd'. Mae'r weithred ymddiriedolaethol yn nodi bod y 'darlithydd yn cael cryn ryddid' yn y modd y mae'n trin ei bwnc.

Mae darlithoedd wedi'u rhoi ar bob math o bynciau sy'n ymwneud â chrefydd – ac mae rhai o'r cyfrolau a gyhoeddwyd o'r Ddarlith Davies yn gyfraniadau pwysig iawn i diwinyddiaeth yng Nghymru. Yr enghraifft enwocaf, mae'n debyg, yw darlith Thomas Charles Edwards yn 1895, *Y Duw-Ddyn*, ond mae llawer o rai eraill sy'n werth eu darllen.

**Felly, beth ydych chi wedi penderfynu ei drafod?**

Teitl y ddarlith yw: 'Methodistiaeth Galfinaidd a'r Gymru newydd'.

Yn fy marn i, roedd arweinwyr Methodistiaeth Galfinaidd yn y gorffennol yn treulio llawer o amser yn adrodd ac ailadrodd hanes yr eglwys – yn egluro sut y daeth y mudiad i fod, sut y datblygodd, a sut yr oedd yr eglwys yn fynegiant o Gristnogaeth fyd-eang mewn cyd-destun Cymreig. Rwyf am ein helpu i fyfyrio ar y stori honno, er mwyn ei gwneud yn gliriach beth ydy'r gymuned yr ydym yn gofyn i bobl ymuno â hi.

**Mae hynny'n swnio'n ddiddorol. Beth yw'r un peth mawr yr ydych yn gobeithio y bydd pobl yn ei gymryd o'r ddarlith?**

Gobaith yn Iesu Grist – yr un sydd 'yn bod cyn pob peth ... pen y corff, sef yr eglwys', y 'dechrau, y cyntafanedig o blith y meirw, i fod ei hun yn gyntaf ym mhob peth' (Colosiaid 1:7,8).

**A sut gall darllenwyr nad ydynt yn bresennol glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud? A fydd ar-lein?**

Gallwch wrando ar y ddarlith ar-lein, a bydd yn cael ei recordio; rwy'n gobeithio datblygu'r syniadau ymhellach a'u cyhoeddi mewn rhyw ffurf.

**Diolch yn fawr, Andras. Gobeithiwn y bydd y ddarlith yn mynd yn dda iawn.**


ENCIL CREADIGOL

Ysbrydoli

DATHLU CHWARTER MILENIWM ANN GRIFFITHS

gydag ANGHARAD PRICE
E. WYN JAMES
IWAN LLEWELYN-JONES
RHIANNON MARKS
GARETH EVANS-JONES
ROSIE DYMOND

NEUADD GREGYNOG
10-12 GORFFENNAF
pris penwythnos £295
(£90 Dydd Sadwrn yn unig)
gan gynnwys llety, bwyd, cyflwyniadau, cyngerdd, gweithdai ysgrifennu creadigol

Am fwy o wybodaeth neu i archebu lle, ebostiwch gwasggylfinir@gmail.com

Mae nifer fach o fwrsariaethau – cysylltwch â ni felly os ydych chi am gymryd rhan, ac angen gostyngiad / bwrsari.





DATHLU CHWARTER MILENIWM ANN GRIFFITHS

Encil creadigol trwy gyfrwng y Gymraeg yw hyn, wedi'i anelu at awduron, artistiaid a phawb sydd â diddordeb mewn llenyddiaeth a'r celfyddydau. Mae croeso i siaradwyr newydd hefyd.

Yn lle cynnal darlithoedd am waith a bywyd Ann, bydd awduron ac artistiaid gwadd yn myfyrio am gysylltiadau rhwng cymuned a gweledigaeth Ann a'u diddordebau nhw.



Ein gobaith yw y bydd yr encil hwn yn ysbrydoli gwaith creadigol newydd. Bydd cyfle i chi gymryd rhan mewn gweithdai creadigol, a digon o amser rhydd i ymlacio, myfyrio a mwynhau cerddoriaeth fyw ac awyrgylch arbennig Gregynog.

Cefnogwyd gan Gronfa Ysbrydoli Cymunedau Llenyddiaeth Cymru. Supported by Literature Wales' Inspiring Communities Fund.
Llenyddiaeth Cymru Literature Wales
Prifysgol Bangor University
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noson Allan Night Out
Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor

# Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu

Eleni, rhwng 18 a 21 Mai yng Nghanolfan Cefn Lea, ger y Drenewydd, cafwyd Ysgol Haf a phrofiadau a erys gyda'r mynychwyr tra byddant. Roedd 'ysbryd' gwahanol ar droed – ac ar gerdded – drwy'r holl weithgareddau a'r profiadau a gawsom o'r cychwyn cyntaf!

Agorwyd y gweithgareddau gan ein Llywydd newydd, Mrs Gwen Wildman, merch wedi ei magu'n lleol ond sydd bellach yn gwneud gwaith da yn ardal Llundain. Cymerodd yr awenau o freichiau 'tebol y Parch. Ddr Nerys Tudor – un anodd iawn i'w dilyn. Ond bydd Gwen yn iawn yng ngafael y breichiau mwyaf nerthol sydd!

Ein siaradwr gwadd cyntaf oedd Wynford Ellis Owen, gŵr cyfarwydd sy'n adnabyddus i lawer. Ef sydd bellach yng ngofal Cynnal, gwasanaeth cwnsela sydd ar gael i'n harweinwyr. Mae beichiau cynnal yr achos yn drwm ar lawer yn yr amser dyrys hwn. Wynford yw ysgogydd a chynhaliwr yr Ystafell Fyw hefyd. Mae achosion dyrys iawn yn codi yn y fan honno, rhy gignoeth i wŷr cyffredin, a rhaid diolch o galon i Wynford Ellis Owen am ei ymroddiad tuag at ei gyd-ddioddefwyr.

Cafwyd cyfnodau o astudiaeth, trafodaeth a gweddïau o fewn ein grwpiau dethol, a mynegwyd gwerthfawrogiad am yr amser yma. Roedd yn amlwg fod oriau maith wedi mynd i baratoi ar ein cyfer gan arweinwyr y grwpiau. I'r boregodwyr, cafwyd cyfnod o weddi cynnar ysbrydoledig iawn, brecwast helaeth ac yna, ar ôl pum munud i dreulio'r cynnwys, cyfnod o ganu mawl dan arweiniad y Parch. Mary Turnock. Mary, cyn-Lywydd ac un o 'hen bennau' y Weinidogaeth Iacháu, oedd â gofal am y Gwasanaeth Bendithio nos Fercher hefyd.

Yr ail siaradwr gwadd oedd y Parch. Geoff Waggett o Ben-y-bont, cyn-reithor gyda'r Eglwys yng Nghymru. Roedd Geoff yno o ddechrau'r Ysgol Haf ac roedd yn hyfryd cael gŵr o'i gefndir amrywiol ef 'yn symud yn ein mysg'. Roedd yn gyfaill i'r cyn-Archesgob Rowan Williams a hyd yn oed wedi cael aros ym Mhalas Lambeth! Cafwyd dwy ddarlith ysbrydoledig iawn gan Mr Waggett, ac ef oedd y cyntaf i gyfaddef na chafodd gymaint o bresenoldeb yr Ysbryd Glân mewn cyfarfod ers llawer dydd. Roedd yr Ysbryd yn symud yn ein mysg o ddifri y noson honno a rhoddodd ergyd, gorfforol a meddyliol, i sawl unigolyn. Nid anghofiwn y profiad ysgytwol hwn.

Bore Iau, y diwrnod olaf, addas iawn oedd hi – Duw wedi trefnu yn ôl ei arfer – mai Nerys Tudor oedd yn cloi ein hamser gweddi boreol. A gwnaeth hynny yn ei dull urddasol, melodaidd ei hun. Teimlwyd y wefr unwaith eto, a mwynder Maldwyn yn ei llais anghymharol.



Roedd amser i rannu profiadau cyn mynd at Fwrdd yr Arglwydd, a rhannwyd profiadau gwefreiddiol gan sawl un. Dwi'n hyderus yn dweud mai profiadau dirdynnol y Parch. Euros a Mrs Pat Jones Evans a gyffyrddodd galon pob un oedd yn bresennol. Rhannodd Euros rai o brofiadau mawr y teulu, gan ddarfod yn orfoleddus drwy chwarae emyn a gyfansoddwyd gan ei ferch ac a roddwyd ar gân drwy gyfrwng Deallusrwydd Artiffisial. Mae'n sôn am agor rhychau'n barod ar gyfer y 'dŵr bywiol' sydd i lifo. Mynnwch gopi gan Euros; mae'n gwirioneddol wefru!

Cafwyd yr 'hufen ar y gacen' – a diolch am bob porthiant yn ystod ein harhosiad – yn y Gwasanaeth Cymun dan ofal Llywydd Etholedig ein Cymanfa Gyffredinol, y Parch. Bryn Williams.

Aeth Bryn â ni ar y ffordd i Emaus, ac 'onid oedd ein calon ar dân' yn teithio gyda'r gŵr oedd yn 'gyfarwydd â dolur'. Cofiwn mai 'trwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni'. 'Agorwyd ein llygaid' a chofiwn ein bod 'yn cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd hyd y dydd y daw' ym mhob cymun a brofwn. Agorwyd llygaid Bryn hefyd i'r ffaith mai Crist ei hun oedd yn agor llygaid y pererinion. Iesu'r Gair yn 'agor y Gair'; Duw ei hun yn agor ei Air ei hun – gwych! Cefais f'atgoffa ychydig flynyddoedd yn ôl inni glywed y Dr Peter Ashton yn gwneud inni ryfeddu yn Nhrefeca gyda hanes Crist yn golchi traed ei ddisgyblion. Duw ei hun ar ei liniau'n golchi traed.

Oedd, roedd yr Ysbryd i'w brofi o'r newydd yng Nghefn Lea eleni ac edrychwn ymlaen at ail enyniad o fendith yr Ysbryd Glân yn ein capeli lleol ac atgyfodiad y Weinidogaeth Iacháu yr oedd yr Iesu ei hun yn ei chynnig. Mawr oedd ein bendith o fod yno, a mawr yw'r edrych ymlaen yn barod am y flwyddyn nesaf. Diolch, Iôr.

*Arthur Wyn Rowlands, Cefnddwysarn*


**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*


Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.